
CYD-BWYLLGOR GwE
06.11.13

Yn bresennol: **Y Cynghorydd Eryl Williams (Cadeirydd)**
 Y Cynghorydd Sian Gwenllian (Is-gaderiydd)

Y Cynghorwyr Wyn Ellis Jones (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint), Michael Williams (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam),

Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais: Ms Rosalind Williams (Esgobaeth Llanelwy), Mr Jeremy Griffiths (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Mrs Annwen Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd)

Swyddogion Heb bleidlais: Mr John Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Mr Dewi R Jones (Cyngor Gwynedd), Mr Geraint James (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Mr Ian Budd (Cyngor Sir y Fflint)

Hefyd yn Bresennol: Mr Huw Foster Evans (Prif Swyddog GwE), Mrs Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes a Chyllid GwE) Mr Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Mr Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)

1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(a) Estynnwyd croeso i Ms Rosalind Williams i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyd-bwyllgor ynghyd â Mr Geraint Rees o Lywodraeth Cymru.

(b) Cyfeiriwyd at brofedigaeth a ddaeth i ran Dr Gwynne Jones o golli ei dad-yng-nghyfraith a mynegodd gydymdeimlad dwysaf iddo ef a'i deulu yn eu colled.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datgan o fuddiant personol gan unrhyw Aelod oedd yn bresennol

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2013 fel rhai cywir.

4. **ADRODDIAD CYNNYDD**

Cyflwynwyd adroddiad gan Brif Swyddog GwE yn amlinellu cynnydd ar ddatblygiadau a chyflwyniad GwE.

Tywysodd Prif Swyddog GwE yr Aelodau drwy'r adroddiad gan gyfeirio at

- dangosyddion perfformiad y Gwasanaeth sydd yn codi o'r Cynllun Busnes
- rhaglen waith yr Arweinyddion System
- cyfarfodydd a hyfforddiant y mynychwyd ganddo ers cychwyn ar ei waith ar 1 Medi 2013
- data a gasglwyd gan y Gwasanaeth ar ddeilliannau ysgolion cynradd ac uwchradd yn atodiad 1 i'r adroddiad yn dilyn Ymweliadau 1 a 3 gan nodi mai cymharol fychan yw'r newid.
- diweddariad ynghylch llythrennedd a rhifedd gan nodi bod un o Uwch Arweinwyr System GwE yn parhau i weithio fel prif ddolen gyswllt y rhanbarth hefo'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol
- profion darllen a rhifedd cenedlaethol gan nodi bod y sefyllfa ar lefel ranbarthol o goladu'r data yn gwella.
- Deilliannau disgyblion yn y sector cynradd a'r uwchradd ar gyfer y rhanbarth
- Ysgolion yng nghategori ESTYN
- Y dyfodol gan nodi pwysigrwydd bod y gwasanaeth yn gallu parhau i weithio hefo ysgolion i wella ansawdd a symud y balans i fod yn fwy rhagweithiol ac i ddatblygu model cynaliadwy gan gynnwys:
 - Gweithio gyda ysgolion da i fod yn well
 - Hyrwyddo cefnogaeth ysgol i ysgol
 - Mireinio barn ar ddeilliannau
 - Datblygu'r gallu i gomisiynu

Yn deillio o'r uchod amlygwyd y pwyntiau isod:

(i) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn â'r meini prawf ar gyfer y gallu i wella a'r ymweliadau yn seiliedig ar arweinyddiaeth teimlwyd yr angen i fod yn hollol glir a gofalus o'r hyn a adroddir. Eglurodd y Prif Swyddog mai dod i farn ar sail deilliannau disgyblion yn unig byddai'r Arweinwyr System y tymor hwn. Roedd Aelod arall o'r farn mai arweinyddiaeth ydoedd allwedd ar gyfer gwella mewn unrhyw sefydliad.

(ii) Nododd Aelod o safbwynt deilliannau y sector cynradd nad oedd modd gwahaniaethu o safbwynt y dangosydd Prydau Ysgol am Ddim ac fe ymatebodd y Prif Swyddog drwy nodi nad oedd wedi derbyn y data cenedlaethol hyd yma.

(iii) Bod y bwch rhwng bechgyn a merched i weld yn cynyddu yng Ngogledd Cymru ac eglurodd y Prif Swyddog tra'n derbyn ei fod wedi cynyddu i 10.1 pc erbyn 2012, roedd cynnydd ym mherfformiad y bechgyn (7.1 pc) yng Ngogledd Cymru ers 2008 yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol (5.2 pc).

(iv) Pryder ynglŷn â datblygiadau pellach yn deillio o Adroddiad Robert Hill ac faint o'r pryder hyn o safbwynt deilliannau Gogledd Cymru sydd yn cael ei gyfleu i'r Gweinidog Addysg.

Mewn ymateb, esboniodd y Prif Swyddog bod graddfa'r cynnydd yn neilliannau trothwy lefel 2+ yng Ngogledd Cymru rhwng 2008 a 2013 wedi bod yn gyflymach ac fe welir cynnydd o 44.6% yn 2008 i oddeutu 54.8% yn 2013. Nodwyd hefyd bod y bwlch rhwng Gogledd Cymru a Chymru wedi agor yn gyflymach yn 2013 ac mai'r momentwm yma sydd angen ei gynnal.

Pwysleisiodd y Prif Swyddog yr angen i fod yn rhagweithiol a chanolbwyntio ar beth sy'n mynd i ddigwydd yn hytrach nag adweithiol a pheidio edrych yn ôl yn ormodol ar berfformiadau'r gorffennol. Rhaid hefyd, yn y trafodaethau cenedlaethol, ddod i sefyllfa cryfach ynglŷn â phryd y derbynir y data a beth ydi'r ansawdd.

(v) Yn deillio o'r rhwystredigaethau uchod felly, awgrymwyd gan Aelod y dylai Cyd-bwyllgor GwE gyflwyno neges i Lywodraeth Cymru i ddatgan y pryder ac apelio arnynt i gyflwyno'r data ynghynt yn ogystal ag ystyried mireinio'r data gan anfon yr hyn sy'n ddefnyddiol i'r pwrpas.

(vi) Deallwyd bod y Gweinidog Addysg yn cwrdd gyda'r Arweinwyr ddydd lau nesaf ac y byddai cyfle bryd hynny i ddatgan y pryderon.

(vii) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r cwmp yng nghanlyniadau Cymraeg Iaith Gyntaf i fod islaw ffigurau Cymru, cydnabuwyd y byddai'n rhaid cadw golwg ar hyn gan gofio bod Gogledd Cymru yn ieithyddol yn wahanol i ranbarthau eraill.

(viii) O safbwynt y gallu i wella, sylwir bod cysondeb yn bwysig ac a yw yn cael ei ddefnyddio hefo'r rhanbarthau eraill. Mewn ymateb, esboniodd y Prif Swyddog bod ddulliau tebyg yn cael eu defnyddio ac y bydd cyfundrefn cenedlaethol yn cael ei datblygu.

(ix) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn â sut y byddir yn sicrhau bod adnodd y Gwasanaeth yn cael ei dargedu yn unol ag angen bob ysgol, esboniodd y Prif Swyddog y byddai'n rhaid cael system mewn lle i hyrwyddo rhannu arbenigedd rhwng ysgolion a chynnal partneriaethau.

(x) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn â barn yr awdurdod lleol ar ysgolion i ESTYN a gyfeirir ato yn Atodiad 2 o'r adroddiad, esboniodd y Prif Swyddog mai ei ymgais ydoedd i ddisgrifio yr hyn a gynhwysir yn y cytundeb lefel gwasanaeth.

(xi) Yn deillio o'r uchod, nodwyd o safbwynt yr ysgolion a'r awdurdodau lleol ei fod yn greiddiol i ddiffinio cyfrifoldebau ynglŷn â chyd-drefniadau a phryderwyd am y perygl o ddiffyg dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau.

(xii) Nodwyd gan Aelod bod angen datrys anghysondebau rhwng asesiadau athrawon ac asesiadau allanol.

(xiii) Pwysleisiodd Aelod bod GwE angen amser i ganolbwyntio ac i fedru ymateb i ddatblygu'r elfen gefnogol er budd gwella ansawdd ysgolion ac y dylid gosod moratoriwm i GwE gael unrhyw newid strwythurol.

(xiv) O safbwynt disgwyliadau GwE ynglŷn â'r Grant Amddifadedd i ysgolion, nododd y Prif Swyddog y byddai'r grant yn cael ei ddyrannu 100% i'r ysgolion. Rôl GwE fyddai monitro beth ydyw effaith y grant ar waith datblygol yr ysgolion. O ran arweiniad strategol, nodwyd ymhellach ei fod yn ofynnol i Adrannau o fewn yr awdurdodau lleol sicrhau bod ysgolion yn darparu cynllun wedi ei wirio gan yr Adran Gyllid er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r amodau perthnasol.

(xv) Diolchwyd i Brif Swyddog GwE am adroddiad cynhwysfawr iawn er hybu trafodaeth buddiol.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad ar ddatblygiadau cyfredol GwE a'r prif ddangosyddion perfformiad.

5. **ADRODDIAD ADOLYGIAD ARIANNOL CYLLIDEB GwE 2013/14**

Cyflwynwyd: Adroddiad Prif Swyddog GwE a Phennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol (Cyngor Gwynedd) yn amlinellu adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn 2013/14.

(a) Cyflwynodd Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol (Cyngor Gwynedd) yr adroddiad ariannol yn sgil gwaith o fonitro cyllideb GwE yn 2013/14, gan gyfeirio at Achos Busnes y Grŵp Prosiect fel sail i lunio'r gyllideb wreiddiol. Cyfeiriwyd ymhellach at Atodiad 2 i'r adroddiad oedd yn amlygu'r gwahaniaethau, gan dynnu sylw at amcangyfrif o gyfanswm tanwariant net o £413,000 yn erbyn y gyllideb, gyda £380,000 ohono ar bennawdau staffio, a £162,000 o hwnnw'n barhaol.

(b) Nododd Prif Swyddog GwE y rhesymeg dros y tanwariant sef bod graddfeydd cyflog swyddogion wedi eu gosod yn is na'r hyn a oedd wedi'i gynnwys o fewn yr Achos Busnes llawn, cyfwerth â'r £162,000 o danwariant parhaol. Yn ogystal roedd cyllideb y cynllun comisiynu ddim ond 7% o gyllideb GwE, tra roedd adroddiad Robert Hill yn datgan fod 15% yn gyfran annigonol o'r gyllideb ar gyfer comisiynu. Roedd oddeutu 20-25 o ysgolion o fewn y rhanbarth angen sylw ychwanegol (o fewn y categori coch) a 104 o ysgolion angen cefnogaeth (o fewn y categori oren) ac ni fyddai'r gyllideb cyfredol felly yn ddigonol, oni bai y gellir defnyddio rhan o'r tanwariant yn briodol ar gyfer y cyllideb comisiynu yn ystod 2013/14, a neilltuo gweddill y tanwariant ar gyfer atgyfnerthu'r gyllideb gomisiynu yn 2014/15.

(c) Nododd Aelod o ystyried yr hinsawdd gyllidol genedlaethol y dylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru drafod y posibilrwydd o ddiogelu cyllideb ar gyfer gwella ysgolion i'r dyfodol.

Penderfynwyd: (a) Derbyn, diolch a nodi cynnwys yr adroddiad cyllidol gan nodi'r tanwariant a chefnogi'r cynnig i Brif Swyddog GwE ddefnyddio rhan o'r tanwariant ar gyfer 'comisiynu', lle'n briodol, yn 2013/14, a neilltuo'r gweddill i'w gario 'mlaen i 2014/15 mewn cronfa benodol ar gyfer atgyfnerthu'r gyllideb comisiynu i'r dyfodol.

(b) Gofyn i Brif Swyddog GwE a Phennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol (Cyngor Gwynedd) gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesa'r Cyd-bwyllgor yn diweddarau sefyllfa cyllideb 2013/14 ac

yn llunio cyllideb 2014/15, gan osod allan y trosglwyddiadau parhaol a argymhellir, gan barhau i weithredu o fewn 'amlen gost' cyfredol cyllideb GwE.

**6. Y MODEL CENEDLAETHOL AR GYFER GWELLA YSGOLION:
CRYFHAU'R CONSORTIA ADDYSG RHANBARTHOL YNG NGHYMRU**

Diolchodd Mr Geraint Rees, Llywodraeth Cymru am y gwahoddiad i'r cyfarfod ac amlinellodd ei yrfa gefndirol gan nodi ei fod wedi bod yn ymarferydd dysgu am 27 mlynedd mewn cyd-destunau amrywiol iawn sef yn Kenya, mewn carchar, ysgolion a choleg addysg bellach. Roedd bellach ar secondiad fel rhan o dim o bedwar fyddai'n cydweithio gyda'r pedwar rhanbarth consortia.

Roedd dyhead gan Lywodraeth Cymru i lunio Model Cenedlaethol ar gyfer gwneud gwahaniaeth i blant Cymru ar lawr y dosbarth. Nodwyd bod pedwar arbenigwr yn arwain y prosiect sef Robert Hill, Joyce Redfearn, David Reynolds a Gareth Williams ac wedi rhannu'r meysydd fel a ganlyn:

- (1) Beth yw pwrpas y gwasanaethau rhanbarthol a'u cylch gorchwyl?
(nodwyd ei fod yn gwbl eglur mai awdurdodau lleol yw'r congl feini ar gyfer cefnogi addysg)
- (2) Pwy sydd yn rheoli'r gwaith a sicrhau bod trefniadau yn gywir?
- (3) Beth yw'r disgwyliadau o'r gwasanaeth rhanbarthol?
- (4) Sut mae symud o fodel traddodiadol i fodel sydd yn hybu llwyddiannau mewn ysgolion, ysgolion yn cefnogi ei gilydd, diwylliant agored rhwng ysgolion, Pennaeth i helpu Pennaeth arall ac yn yr un modd athro yn helpu athro arall.

Rhodddwyd cyfle i Mr John Davies, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, ymhelaethu ar y trafodaethau o fewn y Grŵp y bu ef a Phrif Swyddog GwE yn rhan ohono yn wythnosol yng Nghaerdydd ers peth amser. Mynegodd bod y rhanbarth wedi buddsoddi llawer iawn o amser i ddatblygu fframwaith ac yn symud ymlaen gyda'r broses comisiynu a phryderwyd o'r trafodaethau yn y Grwp bod hyn yn cael ei ddiystyru gyda'r trafodaethau yn arwain tuag at fwy o rannu gwasanaethau a bod disgwyl i'r rhanbarthau gyfrannu at y gwasanaethau hynny drwy'r cytundeb lefel gwasanaeth. Byddai'n hanfodol trafod hyn ymhellach gyda'r Adrannau Cyllid a Chyfreithiol.

Ychwanegodd Prif Swyddog GwE nad oedd y berthynas rhwng GwE a'r awdurdodau yn gwbl eglur i'r dyfodol a bod angen datblygu hyn ymhellach.

Yn ogystal mynegodd Aelod bod angen eglurhad o du'r ysgolion ynglŷn â rôlau mewn perthynas â gwella ansawdd ysgolion.

Mynegodd sawl Aelod anfodlonrwydd ynglŷn â'r model genedlaethol arfaethedig newydd gan nodi'r pryderon isod:

- y byddai'n bur wahanol i'r hyn a sefydlwyd yn rhanbarthol ac ni fyddai Aelodau Cabinet yn rhan ohono gan y byddai'n cael ei reoli gan grŵp o arbenigwyr
- rhagwelir diddymu'r Cyd-bwyllgor GwE
- y byddai atebolrwydd Aelodau Etholedig sydd yn ychwanegu gwerth i'r Cyd-bwyllgor yn cael ei gollu

- bod angen canolbwyntio ar uchafu'r gwaith ar lawr y dosbarth yn hytrach na chreu modelau newydd
- bod y model yn sôn am hybu cystadleuaeth yn hytrach na rhannu arferion da. Credir bod diffyg dealltwriaeth rhwng awdurdodau ac ysgolion o'r hyn sydd yn cyfrif fel ymarfer sy'n cael ei arwain gan y sector. Atgoffwyd bod Fframwaith ESTYN yn nodi ei bod yn amhosibl i ysgolion gael eu dyfarnu fel "rhagorol" oni bai eu bod yn rhannu arferion da a hybu ysgolion i wneud gwelliant.
- bod y model yn seiliedig ar waith yn y De ddwyrain sydd yn cael ei weithredu gan gwmni preifat a Bwrdd ar wahân
- ei fod yn gynamserol i newid y gyfundrefn / model oherwydd nad oedd y model bresennol wedi cael cyfle eto i ddadansoddi ei lwyddiant

I gloi, roedd yr Aelodau'n unfrydol o'r farn pwysigrwydd i gyfleu'r neges i'r Llywodraeth bod y cyfrifoldeb statudol am addysg i barhau gyda'r awdurdod lleol. Ychwanegwyd bod cyfle i lunio cynllun busnes tair blynedd erbyn Chwefror a bod angen cyfeirio at y gwaith sydd eisoes wedi ei gyflawni dros y deunaw mis diwethaf er mwyn newid y canfyddiad sydd gan y Llywodraeth o weithrediad araf y consortiwm.

Mewn ymateb, nododd Mr Geraint Rees nad oedd bwriad i bopeth fod yn ei le erbyn mis Ebrill nesaf oherwydd y byddai'n rhaid adnabod adnoddau ariannol a chynnal trafodaethau pellach.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a gofyn i Mr Geraint Rees gyfleu i'r Gweinidog Addysg bryderon y Cyd-bwyllgor ynglyn â'r Model Genedlaethol newydd ar gyfer gwella ysgolion.

7. COFNODION GRWP DEFNYDDWYR GwE

Derbyniwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod y Grwp uchod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2013.

8. PROFFIL UWCH ARWEINWYR SYSTEM GwE

Derbyniwyd, er gwybodaeth, broffil o Uwch Arweinwyr System GwE.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.45 p.m. a daeth i ben am 3.45 p.m.

CADEIRYDD